Cyngor Gwynedd

# Croeso i Wynedd

Cefnogi Cartrefi i Wcrain

---

**Рада Гвінедда**

# Ласкаво просимо до Гвінедда

Помешкання для підтримки громадян України

---

Gwynedd Council's

# Welcome to Gwynedd

Supporting Homes for Ukraine

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cyngor Gwynedd

# Croeso i Wynedd

## Cefnogi Cartrefi i Wcrain

# Croeso i Wynedd

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys gwybodaeth a fydd o ddefnydd tra'n ymgartrefu yng Ngwynedd.

## Cynnwys


Croeso i Wynedd..........01
Sanctuary a Trwydded Breswylio Biometrig..........02
Bod yn ddiogel yn eich cymuned..........03
Iechyd..........04
Iechyd Meddwl a Llesiant..........05
Canolfannau Hamdden..........06
Gweithio a Dysgu..........07
Canolfannau Gwaith..........08-9
Cefnogaeth Ariannol..........10
Addysg a Gofal Plant..........11
Cefnogaeth Ddyngarol..........12
Cefnogaeth Arall..........13

# Gwynedd




Mae Gwynedd wedi ei leoli yng ngogledd-orllewin Cymru ac yn un o'r siroedd mwyaf yn y wlad, gyda phoblogaeth o oddeutu 123,000. Yn bennaf, ardal wledig yw hi gyda thirwedd odidog iawn gan fod y rhan fwyaf o Barc Cenedlaethol Eryri wedi'i leoli yng Ngwynedd.

**Bangor** yw'r ddinas fwyaf a chartref Prifysgol Bangor. Bangor yw prif ganolfan ddiwylliannol y sir, mae yno ddwy ganolfan siopa fodern a dewis eang o gaffis.

Yr **iaith Gymraeg** yw iaith gyntaf y rhanbarth yn bennaf, ac mae o bwys mawr i lawer o'r boblogaeth. Mae oddeutu 65% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, ond yn y trefi a'r pentrefi cyfagos, fe welwch bod y mwyafrif yn siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn ddwyieithog ac yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg.

Mae bysiau a threnau yn cysylltu'r sir gyfan ac fe allwch ganfod rhagor o wybodaeth am drenau yma: **Trafnidiaeth Cymru** a bysiau yma: **Bws Arriva**

# GWEFAN SANCTUARY

**Sanctuary | Choose a path (gov.wales)**

Mae cymorth ar gael i chi ar **wefan Sanctuary** sy'n egluro eich hawliau, dysgu am Gymru a lle i ddod o hyd i help.

Hefyd, gallwch ffonio'r llinell gymorth yn rhad ac am ddim ar 0808 175 1508 neu +44 (0)204 542 5671 rhwng 8am ac 8pm.

# FISA / TRWYDDED BRESWYLIO BIOMETRIG

**Y Swyddfa Gartref sy'n ymdrin â Thrwyddedau Preswylio Biometrig (BRP).**

Am wybodaeth am eich FISA / Trwydded Breswylio Biometrig (BRP), dilynwch y ddolen hon: Move to the UK if you're coming from Ukraine - GOV.UK (www.gov.uk) gan bod y dogfennau hyn yn dystiolaeth o'ch hawl i aros yn y DU ac yn eich galluogi i gadarnhau pwy ydych chi.

# BOD YN DDIOGEL YN EICH CYMUNED (CYDLYNIAD CYMUNEDOL)

Am wybodaeth ar faterion Diogelwch Cymunedol a gwasanaethau lleol, cyfeiriwch at ein gwefan: **Diogelwch Cymunedol**

## Heddlu Gogledd Cymru

I adrodd am ddigwyddiad nad yw'n argyfwng, cysylltwch â Heddlu Gogledd Cymru ar-lein neu ffonio 101.Cofiwch ffonio 999 mewn argyfwng.
**Live chat | North Wales Police**

## Trais Domestig

Os oes gennych chi bryderon am drais domestig neu drais rhywiol, gallwch gysylltu â'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn sydd ar gael yn rhad ac am ddim 24/7:
0808 80 10 800
**Contact Live Fear Free | GOV.WALES**

## Troseddau Casineb

Troseddau casineb yw troseddau sydd wedi'u cyflawni yn erbyn unigolyn oherwydd eu hanabledd, hunaniaeth-rhyw, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol. Am gymorth ac i adrodd am drosedd casineb ar-lein, ewch draw i: **Report hate crime | North Wales Police**
**Wales Hate Crime (victimsupport.org.uk)**

## Diogelu

Os ydych chi'n bryderus fod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin / esgeuluso, cysylltwch â Thimau Diogelu Cyngor Gwynedd:
Plant: 01758 704 455
Oedolion: 01766 772577 (Y Tu Allan i Oriau: 01248 353551)

## Masnachu Pobl

Os ydych chi'n bryderus am fasnachu pobl, yna cysylltwch â'r Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern: 08000 121 700 (**modernslaveryhelpline.org**)
Os ydych chi'n bryderus am gamfanteisio ar weithwyr, cysylltwch â'r Gangmasters & Labour Abuse Authority:
0800 432 0804 / **intelligence@gla.gov.uk**
Know the signs Ukrainian (gla.gov.uk) / Know your rights Ukrainian (gla.gov.uk)

# IECHYD

Yma yn y DU, mae'r GIG yn ein cefnogi gyda'n anghenion meddygol. Bydd modd i chi gael mynediad at yr holl wybodaeth berthnasol drwy ddilyn y dolenni isod.

Os ydych chi angen sylw meddygol ar frys, ffoniwch 999 ar unwaith neu 111 os nad yw'n achos brys ac am gefnogaeth feddygol y tu allan i oriau.



## Meddyg Teulu (GP) a Deintydd

I gofrestru â meddyg teulu (GP) lleol ac i gael mynediad at ofal deintyddol, dilynwch y ddolen hon:
Local Health Services - Betsi Cadwaladr University Health Board (nhs.wales).
I dderbyn triniaeth feddygol, mae'n rhaid i chi a'ch plant gofrestru â meddyg teulu (GP) cyn gynted â phosib, hyd yn oed os nad ydych chi'n sâl.
Mae rhai deintyddion yn cynnig triniaeth GIG a thriniaeth breifat. Dylech gofrestru gyda deintydd fel claf GIG a rhoi gwybod iddynt os ydych chi'n derbyn budd-daliadau.



## Presgripsiwn Meddygol

I gael mynediad at bresgripsiwn meddygol, dilynwch y ddolen hon i ddod o hyd i restr o'r holl fferyllwyr lleol.

Local Health Services - Betsi Cadwaladr University Health Board (nhs.wales)

# IECHYD MEDDWL A LLESIANT



C.A.L.L 0800 132 733

Cyfarwyddiadur gwasanaethau lleol, Iechyd Meddwl oedolion, plant a phobl ifanc: **Iechyd a llesiant (llyw.cymru)**

5-9 Abbey Road, Bangor, Gwynedd LL57 2EA
01248 354888
ARC@abbeyroadcentre.co.uk
www.abbeyroadcentre.co.uk

Mae Canolfan Tan y Maen wedi'i lleoli yn Nhywyn, Abermaw, Y Bala, Blaenau Ffestiniog a Dolgellau. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch, anfonwch e-bost neu ewch draw i'r wefan **07964 858095** neu **tanymaen@btinternet.com www.tanymaen.org.uk**

Canolfan Felin Fach, Stryd Penlan, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5DE.
**01758 701611**
**christinefelinfach@gmail.com**

# CANOLFANNAU HAMDDEN

Byw'n Iach

**BYW'N IACH**
Ar draws Gwynedd, mae gan Byw'n Iach 11 o ganolfannau hamdden sy'n darparu gweithgareddau amrywiol o nofio i gampfeydd. Gweler yr holl gyfleusterau a'r amseroedd agor yma Hafan | Byw'n Iach (bywniach.cymru)

- **Bangor -** Byw'n Iach Bangor, Ffordd Garth, Bangor. LL57 2SD *01248 370600*
- **Caernarfon -** Byw'n Iach Arfon, Ff.Bethel, Caernarfon, LL55 1HW *01286 676451*
- **Tywyn -** Byw'n Iach Bro Dysynni, Stryd Fawr, Tywyn, LL36 9AE *01654 711763*
- **Blaenau Ffestiniog** - Pwll Nofio Bro Ffestiniog, Wynne Rd, Blaenau Ffestiniog, LL41 3DW. *01766 831066*
- **Pwllheli** - Byw'n Iach Dwyfor, Recreation Rd, Pwllheli, LL53 3PF *01758 613437*
- **Dolgellau** - Byw'n Iach Glan Wnion, Arran Rd, Dolgellau, LL40 1LH *01341 423579*
- **Porthmadog** - Byw'n Iach Glaslyn, Stryd y Llan, Porthmadog. LL49 9HW *01766 512711*
- **Barmouth** - Byw'n Iach Pavilion, The Promenade, Barmouth. LL42 1NF *01341 280111*
- **Bala -** Byw'n Iach Penllyn, Pensarn Rd, Bala, LL23 7YE *01678 521222*
- **Bethesda -** Byw'n Iach Plas Ffrancon, Coetmor New Rd, Bethesda, LL57 3DT *01248 601515*
- **Penygroes -** Byw'n Iach Plas Silyn, County Rd, Penygroes, LL54 6HJ *01286 882047*

# GWAITH A DYSGU

Am gefnogaeth gyda gwaith a dysgu, gweler isod, neu trowch i'r dudalen nesaf i weld lleoliad y Canolfannau Byd Gwaith ledled Gwynedd. Mae Canolfannau Byd Gwaith yn cynnig cymorth gydag agweddau amrywiol o gyflogadwyedd i fudd-daliadau.

Hefyd, gallwch gael mynediad at Gredyd Cynhwysol / Budd-daliadau a gwybodaeth am eich Yswiriant Gwladol ar-lein, gweler tudalen 08-10 am fwy o wybodaeth.

## Cyflogadwyedd

I wybod mwy am gyfleoedd gwaith, cysylltwch â Chymru'n Gweithio - **Cymru'n Gweithio | Working Wales (llyw.cymru)**

GWAITH GWYNEDD

Gall Gwaith Gwynedd ddarparu:

- cefnogaeth un i un lleol,
- mentor i'ch helpu i ddatblygu sgiliau sy'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr,
- hyfforddiant am ddim, a chymorth i ddod o hyd i waith.

Gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru neu ffoniwch 01286 679211.

Grŵp Llandrillo Menai

## Gwersi a Hyfforddiant

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig gwersi Saesneg a chyrsiau / hyfforddiant eraill.

Gweler rhagor o wybodaeth am gyrsiau/hyfforddiant/gwersi sydd ar gael yn lleol ar eu gwefan: **Grŵp Llandrillo Menai - Gwella Dyfodol Pobl (gllm.ac.uk)**

## Pan na allwch weithio...

Am gymorth i ddod o hyd i waith, neu os nad oes modd i chi weithio, neu os na allwch weithio, mae System Les yn y DU ac fe allech fod yn gymwys i dderbyn rhai budd-daliadau. Gweler yr adran ar Ganolfannau Gwaith yng Ngwynedd isod.

# CANOLFANNAU GWAITH

Bydd eich Canolfan Byd Gwaith lleol ar gael i'ch cynorthwyo i ganfod pa fudd-daliadau y gallech eu derbyn.

Gallwch ymweld â'ch canolfan waith leol drwy ddilyn y cyfeiriadau isod, neu drwy gysylltu ar y ffôn: 0800 169 0190

Gall hyn gynnwys:

- **Credyd Cynhwysol** - taliad i rai o oedran gwaith, i'ch helpu â'ch costau byw os ydych chi ar incwm isel. Gallech fod yn gweithio (gan gynnwys hunan-gyflogedig neu'n rhan amser) neu fod yn ddi-waith.
Gallwch ffonio'r llinell gymorth Credyd Cynhwysol am ddim - Rhif ffôn: 0800 328 5644
https://www.gov.uk/apply-universal-credit
- **Credyd Pensiwn** - arian ychwanegol i'ch helpu â'ch costau byw os ydych chi dros 66 oed ac ar incwm isel. Gellir gwneud cais Pensiynau ar-lein neu dros y ffôn.
- **Budd-daliadau Anabledd** - arian ychwanegol i'ch helpu â chostau ychwanegol os oes gennych chi gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor neu anabledd.
- **Lwfans Gofalwyr** - arian ychwanegol os ydych chi'n gofalu am rywun am o leiaf 35 awr yr wythnos.
- **Budd-dal Plant** - arian ychwanegol i'ch helpu â chostau magu plant. Mae dolen at y gwahanol fathau o fudd-daliadau y gallech eu derbyn i'w chael yma.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu faterion brys ac na allwch fynd i'ch Canolfan Byd Gwaith leol yng Ngwynedd, e-bostiwch:
gwynedd.employer-partnershipteam@dwp.gov.uk

**I dderbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill eich hun, rhaid i chi agor cyfrif banc. I agor cyfrif banc, rhaid i chi fynd i fanc a dangos dogfennau sy'n profi: Pwy ydych chi; Statws mewnfudo a Chyfeiriad.**

## BANGOR

**322 - 330 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd, LL57 1YA**

**Llun**: 09:00 – 10:30 & 11:00 – 12:30 & 13:30 – 15:00 & 15:30 – 17:00
**Mawrth:** 09:00 – 10:30 & 11:00 – 12:30 & 13:30 – 15:00 & 15:30 – 17:00
**Mercher:** 10:00 – 10:30 & 11:00 – 12:30 & 13:30 – 15:00 & 15:30 – 17:00
**Iau:** 09:00 – 10:30 & 11:00 – 12:30 & 13:30 – 15:00 & 15:30 – 17:00
**Gwener:** 09:00 – 10:30 & 11:00 – 12:30 & 13:30 – 15:00 & 15:30 – 17:00

## CAERNARFON

**29-31 Stryd Helen,Caernarfon Gwynedd LL55 2YD**

**Llun:** 09:00 - 17:00
**Mawrth**: 09:00 - 17:00
**Mercher**: 09:00 - 17:00
**Iau**: 10:00 - 17:00
**Gwener:** 09:00 - 17:00

## PWLLHELI

**Ffordd Caerdydd, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5BY**

**Llun:** 09.00 – 12:30 & 13:30 - 16:00
**Mawrth:** 09.00 – 12:30 & 13:30 - 16:00
**Mercher:** 09.00 – 12:30 & 13:30 - 16:00
**Iau:** 09.00 – 12:30 & 13:30 - 16:00
**Gwener:** 09.00 – 12:30 & 13:30 - 16:00

## PORTHMADOG

**Tŷ Thedford, Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9LS**

**Llun:** 09.00 -10.40 & 11.00 - 12.30 & 13.30 - 15.10 & 15.30 - 17.00
**Mawrth:** 09.00 -10.40 & 11.00 - 12.30 & 13.30 - 15.10 & 15.30 - 17.00
**Mercher:** 09.00 -10.40 & 11.00 - 12.30 & 13.30 - 15.10 & 15.30 - 17.00
**Iau:** 09.00 -10.40 & 11.00 - 12.30 & 13.30 - 15.10 & 15.30 - 17.00
**Gwener:** 09.00 -10.40 & 11.00 - 12.30 & 13.30 - 15.10 & 15.30 - 17.00

## DOLGELLAU

**Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Arran, Dolgellau, LL40 1BP**

**Llun:** 09:30 – 12:30 & 13:30 - 16:00
**Mawrth:** 09:30 – 12:30 & 13:30 – 16:00
**Iau:** 10:00 - 12:30 & 13.30- 16:00

## MACHYNLLETH

**43-45 Stryd Maengwyn, Machynlleth, Powys, SY20 8EB**

**Mawrth**: 10.00-12.30 & 13.30-16.00
**Mercher:** 10.00-12.30 & 13.30-16.00
**Iau**: 10.00-12.30 & 13.30-16.00

# CYNGOR ARIANNOL A CHYNGOR AR FUDD-DALIADAU

## Cyngor Ar Bopeth (CAB)

Gallwch dderbyn cyngor ariannol am ddim a chymorth i ddeall yr hyn yr ydych yn gymwys i'w dderbyn, a sut i wneud cais amdano, yn eich CAB lleol.

Am ragor o wybodaeth - **https://www.citizensadvice.org.uk/helptoclaim neu 0800 702 2020**

## CAB Gwynedd

I gysylltu â'r tîm CAB lleol, ffoniwch 0808 27 87 922 neu ewch i'w gwefan **Cyngor Ar Bopeth CAB Gwynedd**

## Tîm Budd-daliadau Cyngor Gwynedd

Efallai y bydd rhai grantiau, budd-daliadau a chymorth ariannol lleol ar gael i chi gan eich cyngor lleol. Budd-daliadau a grantiau (llyw.cymru)
Budd-daliadau a grantiau (llyw.cymru) neu ffoniwch 01766 771 000

# ADDYSG A GOFAL PLANT



## Mynediad i Ysgol

Gall plant gael mynediad i addysg am ddim yng Nghymru rhwng 3 ac 18 oed. Am wybodaeth ar ysgolion lleol a sut i gael mynediad i'ch plant i'r ysgolion, dilynwch y ddolen hon:
**Mynediad i Ysgol / Newid ysgol (llyw.cymru)**



## Cefnogaeth Ariannol yn yr Ysgol

Am wybodaeth ynghylch prydau ysgol am ddim, cludiant ysgol a chymorth ariannol tuag at wisg ysgol a chit ymarfer corff, a chynnyrch misglwyf, dilynwch y ddolen hon:
**Help / cymorth Ariannol (llyw.cymru)**




## Gofal plant

Am wybodaeth ynghylch darparwyr gofal plant, crèche, gofal plant a chlybiau brecwast, ewch i wefan Cyngor Gwynedd: **Gofal plant (llyw.cymru).**

Yn ogystal, gallech fod yn gymwys am gymorth tuag at gostau gofal plant.



## Cefnogaeth Gyffredinol i Deuluoedd / Magu Plant

Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael yma a allai eich helpu â magu teulu:
Ffôn: 0797623816

E-bost: **GGTGwyneddFIS@gwynedd.llyw.cymru**
Gwefan: **Hwb Teuluoedd Gwynedd (llyw.cymru)**

# CEFNOGAETH DDYNGAROL / FFOADURIAID

Dilynwch **Ukraine Crisis** i gael gwybodaeth leol gan Gyngor Gwynedd ar y gefnogaeth i Wcráin.

### Cefnogi Ffoaduriaid

Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi nifer o raglenni ffoaduriaid ac mae tîm penodol ar gael i'ch cynorthwyo â'ch hanghenion. Cysylltwch â **ffoaduriaid@gwynedd.llyw.cymru** neu 01766 771 000

### Grwpiau Cefnogi Lleol

Mae grwpiau cefnogi lleol sy'n darparu eitemau ymarferol a chefnogaeth bersonol i ffoaduriaid ailsefydlu yma yng Ngwynedd. Chwiliwch am y grwpiau hyn a'u dilyn ar Facebook.

- Pobl i Bobl
- Croeso Menai
- Cefn

### Y Groes Goch Brydeinig

Gall y Groes Goch Brydeinig ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth i ffoaduriaid o Wcráin drwy eu Llinell Gymorth. 0808 196 3651

### Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Gall Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC) ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth i ffoaduriaid drwy eu rhif ffôn rhad ac am ddim 0808 196 7273 neu **info@wrc.wales.**

# CEFNOGAETH ARALL



## Cysylltedd

Gallwch logi gliniadur / cerdyn sim neu gael mynediad at Bencampwr Digidol i'ch helpu i gysylltu drwy wefan **Citizens Online** - neu drwy ffonio 0808 196 5883
Am Fynediad Cyhoeddus am ddim at TG ac am gefnogaeth gyda Sgiliau TG, ewch i wefan gefnogi TG Cyngor Gwynedd.

## Mantell Gwynedd

Mantell Gwynedd yw Cyngor Gwirfoddol lleol Gwynedd ac mae'n cynnig cefnogaeth amrywiol ledled y sir. Mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys gwybodaeth a chefnogaeth i unigolion sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli yn eu cymunedau.

Gallent hefyd ddarparu gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau ar draws Gwynedd. Hefyd, gallant gefnogi unigolion drwy eu prosiect 'presgripsiwn cymdeithasol'.

Mae eu swyddfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener yng Nghaernarfon a Dolgellau.
Gallwch hefyd gysylltu drwy ffonio 01286 672 626 neu e-bostio **ymholiadau@mantellgwynedd.com.**

## Dewis.Cymru

Am gefnogaeth fwy cyffredinol ynghylch hybiau cymunedol, grwpiau cefnogi lleol a gweithgareddau lleol, ewch draw i wefan **Dewis Cymru**.

# CEFNOGAETH ARALL



## Banciau Bwyd a Phantris Cymunedol

Mae banciau bwyd yn darparu bwyd am ddim i bobl mewn argyfwng.
Mae Pantris Cymunedol yn rhannu bwyd am ddim i bobl fel nad yw'n cael ei wastraffu.

Gellir dod o hyd i'r rhain ledled Gwynedd - **Budd-daliadau a grantiau (llyw.cymru)**



Mae Llyfrgelloedd ar gael drwy'r sir sy'n agored i'r cyhoedd. Gallwch fenthyg llyfrau, llyfrau print bras, llyfrau llafar, gael mynediad i gyfrifiaduron gyda mynediad am i'r we, ac mae'n le i gael help a gwybodaeth yn lleol.
**Eich llyfrgell leol (llyw.cymru)**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**Unrhyw gefnogaeth arall:**
Am wybodaeth ar wasanaethau eraill Cyngor Gwynedd nad ydynt wedi'u rhestru uchod, ewch i **Trigolion (llyw.cymru)**
neu ffoniwch "Galw Gwynedd" ar 01766 771 000 ac fe wnawn eich rhoi mewn cyswllt â'r adran gywir

Roedd yr holl wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn gywir pan oedd yn cael ei argraffu; am y wybodaeth ddiweddaraf ewch i **wefan Argyfwng Wcráin Gwynedd.**